**Partneriaeth**
**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)**
**Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd**
**Dydd Gwener 12 Hydref 2018**
**yn**
**Pafiliwn Llangollen**
**am 10:00am**

Aelodau'r Bartneriaeth AHNE

Cynrychiolydd Mynediad a Hamdden
Andrew Worthington OBE (Cadeirydd)

Cynrychiolwyr Diddordeb Gwledig
Christine Evans, Roger Cragg

Cynrychiolydd Diddordeb Busnes
Dewi Davies

Cynrychiolydd Diddordeb Tirwedd
Michael Skuse

Cynrychiolydd Diddordeb Hanesyddol
Tony King

Cynrychiolwyr Diddordeb Trefol
Ian Papworth, Del Roberts jones

Cynrychiolydd yr Amgylchedd Naturiol
Les Starling

Cynrychiolwyr Rheoli Tir
Sandy Archdale

Cynrychiolwyr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Y Cynghorydd Tony Thomas Cydbwyllgor AHNE
Y Cynghorydd Huw L Jones CSDd
Y Cynghorydd Frank Hemmings CBSW
Y Cynghorydd Sonia Benbow-Jones CBSW
Y Cynghorydd Martyn Holland CSDd
Y Cynghorydd Christine Marston CSDd

Howard Sutcliffe Swyddog AHNE
David Shiel Swyddog Cynorthwyol AHNE
Tony Hughes Swyddog Cynllunio AHNE
Karen Weaver Swyddog Cyfathrebu AHNE
Ceri Lloyd Swyddog Datblygu Cynaliadwy AHNE
Rhun Jones Uwch Warden Cefn Gwlad AHNE

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych
Huw Rees Pennaeth Gwasanaeth Cefn Gwlad a Threftadaeth

Yn cynrychioli Cyngor Sir y Fflint:
Tom Woodall Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad CSFf a Gwella Hawliau Tramwy

Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Anna Irwin, Allan Forrest

Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru
Paul Mitchell

Cyflwynwyd Ymddiheuriadau am Absenoldeb gan: -
Y Cynghorwyr Carolyn Thomas, Hugh Jones, David Kelly, Colin Legg, Paul Cunningham, Paul Jones, a Phil Durrell,

Gareth Jones, John I Roberts, Helen Walker

**Croeso**
Croesawodd y Cadeirydd aelodau i gyfarfod yr hydref o Bartneriaeth yr AHNE. Croesawodd y dirprwy aelod ar ran CBSW, y Cynghorydd Frank Hemmings.
Ymddiswyddiad Aelod
Dywedodd y Cadeirydd bod Helen Walker wedi ymddiswyddo oddi ar y Bartneriaeth am resymau teuluol ac ymrwymiadau eraill.

**1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2018**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cyfathrebu am gwblhau'r cofnodion.

**2. Diweddariad gan Weithgorau**
Derbyn diweddariad gan Gadeiryddion y Gweithgorau

2.1 **Gweithgor Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau**

Roedd Swyddog yr AHNE wedi cymryd rôl y prif swyddog drosodd ar gyfer y grŵp wedi ymddeoliad Fiona Gale. Dywedodd Cadeirydd y Grŵp, Christine Evans, bod y Grŵp
Wedi cael dau aelod newydd, sef Fiona Grant (Cadw) a Chris Jones (Cefnogwr AHNE a Chymdeithas Archeolegol Corwen a Dyffryn Dyfrdwy).
Nododd:

- Gosod Gwifrau Dan Ddaear
  Rhwydweithiau Ynni Scottish Power
  Roedd gwaith gosod gwifrau dan ddaear wedi cychwyn ger Rhaeadr Y Bedol. Roedd yr ardal o amgylch Capel Llangar, y Silff ac uwchben Llangollen yn Fron Bache bellach yn cael ei hystyried.
  Roedd y Grid Cenedlaethol hefyd yn ystyried pa mor gymwys yw'r llinell rhwng Legacy a Nercwys (roedd hyn y tu allan i ffin yr AHNE ond o fewn lleoliad y tirwedd a ddiogelir).
  Byddai Gillespie's yn cwblhau Asesiad Cymeriad Tirwedd.
- Tomen y Rhodwydd
  Mae'r eithin yn broblematig yn y safle bellach, mae moch daear yn bresennol hefyd, ac ar hyn o bryd mae ailgartrefu'r moch daear yn cael ei ystyried.
- Penodiadau Ein Tirlun Darluniadwy
  Eglurodd y Cadeirydd bod dau benodiad wedi eu gwneud:

Swyddog Prosiect
Mae Kate Thomson wedi ei phenodi fel Swyddog Partneriaeth Ein Tirlun Darluniadwy. Cychwynnodd Kate ei gyrfa fel rhan o Wasanaeth Cefn Gwlad Wrecsam ac roedd ar hyn o bryd yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru fel Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer y Fenter Plant (mae'r prosiect hwn yn trefnu bod coeden yn cael ei phlannu am bob plentyn sy'n cael ei eni yng Nghymru). Cyn hynny roedd Kate yn rhan o Dîm Addysg Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Swyddog Cymunedol
Mae Sallyanne Hall wedi ei phenodi fel Swyddog Cymunedol Ein Tirlun Darluniadwy. Yn flaenorol bu Sallyanne yn gweithio i AHNE High Weald, Caint, ac roedd yn gweithio i Groundwork yng Nglannau Dyfrdwy ar brosiectau Ymgysylltu Â'r Gymuned.

Swyddog Cyfathrebu
Roedd y swydd hon yn dal heb ei llenwi.

Byddai'r Swyddog Prosiect a'r Swyddog Cymunedol yn cychwyn ar eu gwaith ar 1 Tachwedd.

DRAFT

- Dronau ar Safleoedd Rhestredig – Trafodwyd dronau ar safleoedd rhestredig a chynigwyd codi arwyddion mewn safleoedd penodol er mwyn nodi na chaniateir dronau.
- Cloddio Archeolegol yng Nghastell y Waun - byddai Ian Grant yn mynychu'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi adborth ar y cloddio a oedd yn digwydd yn agos at Lwybr Clawdd Offa ger Castell Y Waun.

## 2.2 Gweithgor Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol

Diweddariad ar Brosiect Gylfinir Cymru

Eglurodd Les Starling, Cadeirydd y GrŴp mai un o'u prosiectau allweddol oedd Prosiect Gylfinir Cymru, a chyflwynodd yr Uwch Warden Cefn Gwlad, Rhun Jones, a roddodd ddiweddariad i'r pwyllgor. Rhun, a Swyddog Ecoleg a Bioamrywiaeth CBSW, Emma Broad, oedd y swyddogion arweiniol ar y prosiect . Roedd Gweithgor wedi ei gynnull a chyfarfod cynhyrchiol wedi ei gynnal yn ddiweddar. Roedd grŴp â chynrychiolaeth o bob rhan o Ogledd Cymru yn ystyried sut roedd ffermio wedi datblygu a sut roedd hyn yn effeithio ar boblogaeth y Gylfinir, ac roedd Rhun yn eistedd ar y grŴp hwn. Roedd yr RSPB yn cyflwyno cais cyllido i Lywodraeth Cymru ar ran y grŴp. Dywedodd Rhun fod 75 achos o weld yr aderyn wedi eu cofnodi yng Ngogledd Ddwyrain Cymru drwy Cofnod, a gellir monitro'r data hwn bellach. Wrth symud ymlaen, un o'r targedau ar gyfer y grŴp oedd gweithio'n gadarnhaol gyda chymunedau ffermio er mwyn helpu i gynnal y patrwm cynefinoedd a'r strwythur llystyfiant y mae'r gylfinir yn ei ffafrio.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn. Eglurodd Rhun pe byddai'r cyllid yn llwyddiannus gellid creu dwy swydd i symud y prosiect yn ei flaen, a rôl allweddol y swydd fyddai 'rheoli ysglyfaethwyr yn effeithiol'. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â beth oedd rheoli ysglyfaethwyr yn effeithiol yn ei olygu, ac eglurodd Rhun mai un posibilrwydd fyddai ymestyn y tymor wyna hyd at fis Mehefin / Gorffennaf er mwyn helpu'r adar sy'n nythu, a dull arall fyddai trapio, a gwella diogelwch caeau drwy ddefnyddio ffensys trydan. Pwysleisiodd Rhun na fyddai rheoli ysglyfaethwyr yn datrys yr holl broblemau sy'n gysylltiedig â'r Gylfinir.

Mae'r eitem hon yn parhau.

## 2.3 Gweithgor Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig

Menter Awyr Dywyll

Dywedodd Cadeirydd y GrŴp, y Cynghorydd Martyn Holland, fod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i archwilio sut gallai pob tirlun a warchodir yng Nghymru gydweithio tuag at 'Genedl Awyr Dywyll'. Byddai Parc Cenedlaethol Eryri yn arwain ar y prosiect yng Ngogledd Cymru a byddai Swyddog Prosiect yn cael ei benodi maes o law.

Taith Ddysgu

Roedd ymweliad safle wedi ei drefnu i fynd i AHNE Gogledd y Pennines. Mae ganddynt 16 Safle Darganfod Awyr Dywyll, ac roeddynt yn cynnal GŴyl Awyr Dywyll ddechrau Tachwedd. Byddai'r unigolion fyddai'n gweddu orau i'r prosiect yn cael eu gwahodd.

Cynllun Goleuo

Eglurodd Swyddog Cynorthwyol yr AHNE bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r tri Awdurdod Lleol ynglŷn â golau stryd. Eglurodd mai mewn kelvin mae tymheredd / lliw golau LED yn cael ei fesur, ac mai'r argymhelliad gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol oedd 3000 kelvin. Roedd CSDd bellach wedi newid i 3000 kelvin a gobeithiwyd y byddai CBSW a CSyFf yn dilyn. Cafwyd trafodaeth, a chydnabuwyd bod nifer o Gynghorau Cymuned yn gyfrifol am olau stryd. Roedd Cynghorau Cymuned Cefn Mawr a Gwaenysgor a Threlawnyd ar hyn o bryd yn y broses o ddiweddaru eu goleuo ac roedd angen cyngor arnynt.

Cam Gweithredu

- Swyddog Cynorthwyol yr AHNE i gysylltu â'r Cynghorau Cymuned.
- Cefnogwyr yr AHNE i dderbyn copi o'r SPG i'w rannu gyda Chynghorau Cymuned.

Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

DRAFT

Roedd y grŵp wedi ystyried ymateb yr AHNE i nifer o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru dros y misoedd diwethaf gan gynnwys:

- Ymgynghoriad ar Echdynnu Petrolewm yng Nghymru
- Cyflawni ein Llwybr Carbon Isel at 2030
- Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018 – 2023
- Darparu tai drwy'r system gynllunio

Ymgynghoriadau Cynllunio

Dywedodd y Cadeirydd nad yw'r grŵp hwn yn gwrthwynebu ceisiadau yn aml, ond mewn sawl achos maent yn darparu argymhellion er mwyn gwella datblygiadau. Mewn cyflwyniad diweddar i'r grŵp roedd Ian Weaver, Prif Swyddog Cynllunio CSDd wedi cynnwys yr agwedd hon mewn manylder gan gynnwys ystyried nifer o astudiaethau achos. Eglurodd fod yn rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio gyrraedd barn gytbwys ar yr holl sylwadau a gyflwynwyd, fodd bynnag yn ei farn ef roedd tôn sylwadau'r AHNE yn addas, yn arbennig gyda chymorth ychwanegol gan y CCA a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

Sicrhawyd y grŵp bod sylwadau'r AHNE yn cael eu hystyried ac yn y rhan o fwyaf o achosion fod yr Awdurdod Cynllunio wedi cymryd sylw ohonynt.

2.4 **Gweithgor Hamdden, Mwynhad a Dealltwriaeth**

Ni allai John Roberts, Cadeirydd y Grŵp fod yn y cyfarfod, felly Ian Papworth roddodd y diweddariad. Dywedodd Ian bod un cyfarfod o'r grŵp newydd hwn wedi ei gynnal hyd yma, a'u bod wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl.

Cytunwyd y byddai'r grŵp yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gweithgor Twristiaeth Gynaliadwy ac Ymgysylltu â Busnes er mwyn bodloni amcanion y Cynllun Rheoli.

2.5 **Gweithgor Twristiaeth Gynaliadwy ac Ymgysylltu â Busnes**

Adroddodd Cadeirydd y Grŵp, Dewi Davies:

- Bod y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp hwnnw wedi ei gytuno.
- Byddai'r Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Chynllun Gweithredu 2015-20 yn eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd y grŵp.

Astudiaeth Gwerthusiad Ymwelwyr

Pwrpas yr astudiaeth oedd asesu gwerth economaidd a chymdeithasol chwe safle poblogaidd ymysg ymwelwyr ar draws yr AHNE ac i gydbwyso hyn yn erbyn effeithiau amgylcheddol ar ardaloedd sensitif o ran ecoleg a diwylliant.

Y safleoedd oedd:

1. Parc Gwledig Loggerheads
2. Parc Gwledig Moel Famau
3. Rhaeadr y Bedol
4. Basn Trefor
5. Panorama
6. Traphont Ddŵr Y Waun ac ardal y Twnnel

Byddai'r astudiaeth yma'n dylanwadu ar ymateb yr AHNE i niferoedd ymwelwyr cynyddol yn y prif ardaloedd a byddai'n gosod ymagwedd gynaliadwy at reoli, gan sicrhau bod capasiti a gwytnwch yr ardaloedd yn ganolbwynt i'r ymagwedd honno. Byddai'r astudiaeth hefyd yn edrych ar sut y gellid rhannu'r manteision economaidd a chymdeithasol yn ehangach. Mae'r New Economic Foundation (NEF) wedi eu penodi i gwblhau'r astudiaeth.

Fforwm yr AHNE

Bydd Fforwm Flynyddol yr AHNE yn cael ei gynnal yn Springs, Llanrhaeadr, ar 8 Tachwedd 2018.



DRAFT

Y thema oedd 'Twristiaeth Gynaliadwy ac Ymgysylltu â Busnes'. Roedd yr AHNE wedi cydweithio gyda GrŴp Twristiaeth Bryniau Clwyd a oedd hefyd yn cynnal eu cyfarfod hydref cyn y Fforwm, yn ogystal â dau grŴp bwyd a diod lleol; Bwyd a Diod Bryniau Clwyd a Chlwb 'Good Grub' Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy. Fe'u gwahoddwyd i gyd i fynychu'r ddau ddigwyddiad.

2.6 **Gweithgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Yn gyntaf diolchodd Cadeirydd y GrŴp, Mike Skuse i Swyddog Cynorthwyol yr AHNE a'r Swyddog Datblygu Cynaliadwy am eu holl waith ar brosiectau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.
Aeth ymlaen i adrodd bod:

- £55,000 o gyllid wedi ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru (roedd £5,000 o hwn yn cyfrannu at ffioedd gweinyddol)
- Cymeradwyodd GrŴp y Gronfa Datblygu Cynaliadwy un ar ddeg o brosiectau yng nghyfarfod mis Mai, oedd yn werth oddeutu £38,000.
- Rhoddwyd £1,500 yr un i gloddiad Prifysgol Lerpwl ym Mhenycloddiau a chloddiad Prifysgol Rhydychen ym Moel y Gaer Bodfari.

Ynni Lleol a'r Clwb Ynni Lleol, Corwen
Roedd y cais ar gyfer £7000 wedi ei ddyrannu dros dair blynedd. Roedd y cynllun yn golygu prynu trydan gostyngol yn gyntaf gan Gynllun Hydro Corwen, ac wedyn gan gynlluniau tebyg. Er mwyn i drigolion ymuno â'r cynllun roedd yn hanfodol fod ganddynt fesurydd clyfar.
Roedd rhai aelodau'n poeni am y cynllun, felly gohiriwyd cymorth pellach. Cyflwynodd Cadwyn Clwyd (cyd sylfaenwyr) gyflwyniad ar y cynllun, fodd bynnag dim ond tri aelod o'r GrŴp Cronfa Datblygu Cynaliadwy fynychodd, oedd yn siomedig iawn. Sicrhawyd aelodau mai craidd y cynllun oedd helpu cymunedau, ac roedd cynlluniau tebyg eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.
Yn ogystal, byddai'r AHNE yn cael eu gweld fel bod ar flaen y gad o ran y ffordd newydd hon o edrych ar sut i ddosbarthu trydan.

Prosiectau Newydd
Roedd pum prosiect newydd (a byddai adroddiad arnynt yn y cyfarfod nesaf):

- Sgiliau Gwledig Sir y Fflint (prosiect ar y cyd gyda CSyFf)
- Astudiaeth Gwmpasu Ysgol Cilcain
- Lleihau'r Defnydd o Blastig Un tro
- Gardd Gymunedol Corwen
- Cnudoedd gwlad wedi eu gwneud a llaw

## 3. Tân Mynydd Llandysilio-yn-Iâl

Dywedodd Swyddog Cynorthwyol yr AHNE, David Shiel, bod ei ddiweddariad yn canolbwyntio'n unig ar rôl yr AHNE.

Cefndir
Cychwynnodd y tân fel rhan o losgi a gynlluniwyd gan berchennog tir, ond fe aeth allan o reolaeth, nodwyd bod y llosgi y tu allan i ganllawiau Llywodraeth Cymru rhwng Hydref ac Ebrill. Llosgodd y tân o 18 Gorffennaf hyd at 4 Medi (Llosgodd y tân o dan y ddaear hyd at fis Medi) ac effeithiwyd 730 acer o dir. Roedd gwylwyr tân yn broblematig, a bu'n rhaid cau Bwlch Yr Oernant am fis. Gwnaeth y gwasanaeth tân waith ardderchog.

Rôl Ceidwaid yr AHNE
Roedd profiad gan Geidwaid yr AHNE o losgi dan reolaeth ar y rhostir (drwy losgi grug) ac roedd ganddynt offer arbenigol sef 'fire foggers' nad oedd gan y Gwasanaeth Tân. Roedd Ceidwaid yr AHNE yn gyfarwydd iawn â'r mynydd ac roeddynt wedi gallu cynghori'r Gwasanaeth Tân ar sut i fynd i rai ardaloedd, buont hefyd yn gweithio gyda CSDd a Cyfoeth Naturiol Cymru ar rwystrau tân.

Bu Ceidwaid yr AHNE yn cynorthwyo'r gwasanaeth tân i ddiffodd y tân yn yr ardaloedd lle'r oedd ar ei waethaf.
Roedd y tân yn bwysau ar Staff yr AHNE ar y pryd, a llosgodd y tân o dan y ddaear hyd fis Medi.

Adfer Natur
Cyfarfu Swyddog Cynorthwyol yr AHNE â Chyfoeth Naturiol Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) i drafod adferiad natur. Mewn ardaloedd mawr byddai rhedyn ac eithin yn tyfu'n ôl, ond byddai colli pridd yn dal yn broblem. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r porwyr yn fuan.
Byddai LEI a'r Prosiect Gylfinir yn cynorthwyo i reoli'r tirlun.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn. Dywedodd aelod bod yr adborth cyffredinol gan y gymuned leol yn cynnwys peth anfoddhad gyda rheolaeth tir y mynydd a'r diffyg gwybodaeth tra roedd y tân yn llosgi. Dywedodd David y byddai ôl-drafodaeth Aml Asiantaeth lawn yn cael ei chynnal ac y byddai dulliau cyfathrebu yn cael eu trafod, aeth ymlaen i egluro sut roedd wedi bod yn anodd cadw ffermwyr yn ffermio ar y mynydd, fodd bynnag ni rwystrwyd rheolaeth tir, ac roedd yr RSPB a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio gyda ffermwyr i gynorthwyo i reoli'r tir.
Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd y byddai adroddiad aml asiantaeth yn cael ei gwblhau wedi'r tân, a phan fyddai'r adroddiad wedi ei gwblhau gallai'r Bartneriaeth ychwanegu at y sylwadau.
Dywedodd y Cynghorydd Martyn Holland y dylid llongyfarch yr AHNE am yr holl waith caled yr oeddynt wedi ei wneud, ac y dylai unrhyw un oedd â sylwadau pellach roi gwybod iddo amdanynt.

## 4. Gwobr AHNE ar gyfer 2019

Cyflwynodd y Cadeirydd y pedwar enwebiad ar gyfer Gwobr yr AHNE eleni:

1. Siop Gymunedol, Llanarmon yn Iâl
2. Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
3. Cymdeithas Gadwraeth Llanarmon yn Iâl
4. Gardd Gymunedol Corwen

Pleidleisiodd Aelodau a chytunwyd yn unfrydol y dylai Gardd Gymunedol Corwen dderbyn y wobr ar gyfer 2018/19.
Cam Gweithredu

- Dylid rhoi gwybod i aelodau Gardd Gymunedol Corwen eu bod wedi ennill Gwobr yr AHNE.
- Dylid trefnu dyddiad er mwyn cyflwyno'r wobr.

### 4.1 Gwobr Gwirfoddolwyr yr AHNE

Cyflwynodd yr Uwch Warden Cefn Gwlad, Rhun Jones, yr enwebiad sef John Lawton Roberts, gan egluro bod John wedi ymroi llawer o'i fywyd i gofnodi, gwylio ac adrodd am adar yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Roedd ei frwdfrydedd diddiwedd a'i arbenigedd wedi helpu i greu darlun manwl o'r newid i boblogaethau adar yn yr ardal dros gyfnod o 40 mlynedd. Roedd John wedi bod yn ased wych i'r AHNE.
Cam Gweithredu

- Bod John Lawton Roberts yn derbyn Gwobr Gwirfoddolwr 2018/19
- Trefnu dyddiad er mwyn i John dderbyn y Wobr

## 5. Tirweddau'r Dyfodol yng Nghymru

Adolygiad Rhaglen Tirweddau Penodedig a Thirweddau'r Dyfodol yng Nghymru: (llythyr eisoes wedi ei gylchredeg)
Eglurodd y Cadeirydd bod Hannah Blythyn AC wedi gwahodd sylwadau am 'Well Cydraddoldeb rhwng Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol'

DRAFT

gan bum swyddog tirweddau a warchodir yng Nghymru yr AHNE ac ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru fod ymateb ar y cyd wedi ei gyflwyno.  Unwaith i ymateb gael ei dderbyn byddai'r eitem hon yn cael ei hystyried ymhellach.
Mae'r eitem hon yn parhau.

**6. Diweddariad ar brosiect Ein Tirlun Darluniadwy**

Dywedodd Swyddog Cynorthwyol yr AHNE, David Shiel, fod y caniatâd swyddogol i gychwyn yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd.  Roedd dau benodiad wedi eu gwneud (yr adroddwyd amdanynt eisoes), a diolchodd i GrŴp Llywio'r Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy am eu cymorth yn y broses benodi. Byddai Tîm Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy wedi eu lleoli yn Y Caban, Plas Newydd, a byddai cyfarfod yn cael ei drefnu yn fuan.

**7. Diweddariad gan Swyddog yr AHNE**

Natur er budd Iechyd

Rhoddodd Swyddog yr AHNE wybod am fenter ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac Adran Dai Cyngor Sir Ddinbych, sy'n hyrwyddo'r manteision lles sy'n gysylltiedig â bod yn yr awyr agored yn yr amgylchedd naturiol. Wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle mae tai cymdeithasol a chanolfannau cymunedol (yn Y Rhyl, Llangollen a Chorwen) byddai'r cynllun yn defnyddio rhagnodiadau cymdeithasol amgylcheddol ac atgyfeiriadau gan feddygon teulu i annog cymunedau i gael mynediad at ac i fwynhau eu hardaloedd gwyrdd lleol. Gobeithiwyd y byddai'r cynllun yn cael ei ymestyn i ardaloedd Cefn a'r Waun.

Ymweliad Prif Weithredwr CSDd â Loggerheads.

Yn ddiweddar aeth y Prif Swyddog Gweithredol, Judith Greenhalgh, a Chyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Gwarchod Y Cyhoedd, Graham Boase, a Phennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Emlyn Jones, i ymweld â Pharc Gwledig Loggerheads a chwrdd rhai o'r tîm.

Cynllun Rheoli a Seminarau Llywodraethu

Roedd Swyddog yr AHNE a Swyddog Cynorthwyol yr AHNE wedi cwblhau sawl seminar er mwyn archwilio'r amrywiol Gynlluniau Rheoli a llywodraethu.  Roedd yr AHNE hefyd yn cynorthwyo Ymddiriedolaeth Sandstone gyda llywodraethu.

Ffotograffiaeth Pwynt Sefydlog

Roedd Swyddog yr AHNE wedi sylwi ar bwyntiau ffotograffiaeth pwyntiau sefydlog ym Mharc Cenedlaethol Penfro a dywedodd ei fod yn ffordd wych o fonitro newid yn y tirlun.

Gwaith Trin Carthion Poncysyllte

Roedd Swyddog yr AHNE wedi galw cyfarfod gyda Steve Wilson, Dwr Cymru
ynglŷn a lliniaru'r gwaith trin carthion.

Bwrdd Safle Treftadaeth y Byd

Roedd Swyddog yr AHNE wedi mynychu Cyfarfod Bwrdd Safle Treftadaeth y Byd gydag Allan Forrest CBSW.

Wythnos Eithriadol NAAONB

Trefnwyd yr Wythnos Eithriadol gan Gymdeithas Genedlaethol AHNE (NAAONB) a gynhelir yn flynyddol ym mis Medi i ddathlu pob AHNE yng Nghymru a Lloegr.  Roedd yn golygu bod yr AHNE yn darparu rhaglen o ddigwyddiadau am wythnos, i'w cynnal ym mhob un o'r ardaloedd.  Fel rhan o'n cyfraniad ni fe arweiniodd Swyddog yr AHNE 3 taith gerdded oedd yn cynnwys holl Safle Treftadaeth Y Byd a'r parth clustogi, a bu'r 3 daith yn llwyddiannus.

**8. Unrhyw Fater Arall**

Nododd y Cynghorydd M Holland bod y Cadeirydd wedi gorfod rhoi taw ar rai o'r trafodaethau heddiw oherwydd cyfyngiadau amser a chynigiodd y dylid rhoi mwy o amser i gyfarfodydd.

Ceidwad AHNE - Vicky Knight

Diolchodd Ian Papworth i Vicky Knight am ei gwaith caled yng Ngwaenysgor.  Yn ddiweddar roedd Vicky wedi gadael tîm yr AHNE er mwyn cymryd rôl newydd fel Prif Geidwad Ynys y Dyrchafael.

DRAFT

## 11. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

| Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Dydd Gwener 22 Mawrth 2019 | am 10am | I'w benderfynu |
| Dydd Gwener 14 Mehefin 2019 | am 10am | I'w benderfynu |
| Dydd Gwener 18 Hydref 2019 | am 10am | I'w benderfynu |

DRAFT